



Llywodraeth Cymru

Adroddiad Cryno ar Ymatebion yr Ymgynghoriad a Chasgliadau

A ddylai Llywodraeth Cymru gymhwyso'r
'Erthyglau' yng Nghonfensiwn y Cenedloedd
Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i bobl ifanc
rhwng 18 a 24 mlwydd oed?



Mawrth 2013

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cefndir	1
3.	Ymgynghoriad	2
4.	Crynodeb o'r ymatebion	3
5.	Themâu ac ymatebion allweddol	3
6.	Casgliad a'r camau nesaf	10
7.	Y mentrau a awgrymir yn yr ymatebion	10
8.	Rhestr o ymatebwyr yr ymgynghoriad	13

1. Cyflwyniad

Lansiwyd ymgynghoriad yn gofyn “A ddylai Llywodraeth Cymru gymhwyso’r ‘Erthyglau’ yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP)¹ i bobl ifanc rhwng 18 a 24 mlwydd oed?”² gan yr Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ar 8 Hydref 2012.

Mae’r ddogfen hon yn darparu dadansoddiad o’r ymatebion a dderbyniodd Llywodraeth Cymru ac yn adrodd yn ôl ar ei chasgliadau.

2. Cefndir

Mae CCUHP yn amlinellu cyfres o safonau gofynnol y mae gan bob plentyn a pherson ifanc o dan 18 oed hawl i’w disgwyl, gan sicrhau eu bod yn gallu tyfu a datblygu i helpu i gyflawni eu llawn botensial.

Cymru yw’r wlad gyntaf yn y DU i gynnwys CCUHP mewn cyfraith ddomestig drwy basio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011³. Pasiwyd y Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011 ac fe’i cymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 16 Mawrth 2011.

Yn y Mesur, cyfeirir at bobl o dan 18 oed fel ‘plant’ a chyfeirir at bobl 18 i 24 oed (gan gynnwys y rhai 24 oed) fel ‘personau ifanc’. Mae’r dull hwn o weithredu wedi cael ei fabwysiadu er mwyn bod yn gyson â CCUHP ac â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y deilliodd medruswydd deddfwriaethol y Mesur ohoni. Fodd bynnag, ers 2000, mae’r polisi yng Nghymru wedi ystyried plant a phobl ifanc fel pobl hyd at 25 oed⁴.

Mae Adran 7 o’r Mesur yn datgan ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried ac ymgynghori ynghylch a yw, ac (os felly), i ba raddau a gyda pha ddiwygiadau y bydd:

- a) gofynion CCUHP a’r Protocolau Dewisol yn berthnasol i bersonau sydd wedi cyrraedd 18 oed ond heb fod yn 25 oed eto; ac
- b) y Mesur arfaethedig yn berthnasol i’r grŵp hwnnw.

Pwrpas y gofyniad hwn oedd caniatáu ystyried pobl ifanc. Wrth gynnig y Mesur, roedd amrywiaeth o safbwyntiau am y darpariaethau yn adran 7, a theimlwyd y dylid delio â’r materion perthnasol i’r grŵp oedran hyn hwn o dan broses ar wahân, yn hytrach nag oedi gyda rhoi’r Mesur newydd hwn yn ei le.

Mae’r bwriad i ymgynghori ynghylch yr elfen hon o’r Mesur wedi’i ddatgan yng Nghynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru 2012⁵. Hefyd mae’r Mesur yn datgan ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar eu casgliadau ar y

¹ <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/uncrc/?lang=en>

² [Llywodraeth Cymru | Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011 - ymgynghoriad yn ystyried Adran 7 - 'Cymhwyso i Bobl Ifanc'](#)

³ [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#)

⁴ [Llywodraeth Cymru | Ymestyn Hawliau](#)

⁵ [Llywodraeth Cymru | Cynllun Hawliau Plant](#)

materion uchod a chyflwyno copi o'r adroddiad ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyflawn yn awr ac mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r prif ddarganfyddiadau a chasgliadau.

3. Ymgynghoriad

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 8 Hydref 2012 ac roedd ar agor ar gyfer derbyn ymatebion tan 28 Rhagfyr 2012.

Anfonwyd yr ymgynghoriad yn electronig at amrywiaeth eang o randdeiliaid ac roedd ar gael yng ngwefan Llywodraeth Cymru hefyd. Gosodwyd tri chwestiwn mewn dogfen debyg i ffurflen, gan ddarparu ffurflen ar-lein hawdd i'w dychwelyd drwy e-bost. Hefyd lluniwyd fersiwn addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghorol, yn holi'r un gyfres o gwestiynau.

Derbyniwyd 18 ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein gan sefydliadau a rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn hawliau plant, a hefyd gan grwpiau o ieuencid 18-24 oed eu hunain.

Ceisiwyd rhai cyfleoedd i ryngweithio â rhanddeiliaid allweddol wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Dyma'r digwyddiadau allweddol:

- Rhwydwaith Cyfnewid Arferion Plant a Phobl Ifanc Gogledd Cymru ar 17 Medi 2012; a
- Gweithdai'r Ddraig Ffyni ar 1 Tachwedd 2012.

Roedd yn bwysig gwneud yn siŵr bod yr ymgynghori'n digwydd gydag amrywiaeth eang o bobl ifanc o bob cwr o Gymru a'u bod yn cael bod yn rhan o'r cyfnod ymgynghori. Rhoddwyd contract i Dynamix⁶, sef cwmni uchel ei barch am wrando ar blant a phobl ifanc a gweithio gyda hwy ar y materion sy'n effeithio arnynt, i ymgymryd â'r gwaith hwn. Llwyddodd Dynamix i gynnal 9 gweithdy gyda mwy na 60 o bobl ifanc, i geisio eu safbwyntiau am yr ymgynghoriad. Roedd llawer ohonynt yn bobl ifanc agored i niwed neu wedi'u gwthio i'r cyrion.

Un elfen hynod lwyddiannus o'r contract uchod oedd cynnwys 5 aelod o grŵp i bobl ifanc o'r enw Gwirforce⁷, a hyfforddwyd i gyflwyno'r gweithdai ymgynghori ochr yn ochr â gweithwyr Dynamix. Aeth y gwaith gyda'r bobl ifanc hyn ati'n gydwybodol i fodelu'r 7 Egwyddor Cyfranogiad⁸ a chafodd adborth cadarnhaol iawn.

⁶ <http://www.dynamix.ltd.uk/index.php?lang=en>

⁷ <http://www.gwirvol.org/en/volunteers/about-us-volunteers/gwirforce-yp/>

⁸ <http://www.tpascymru.org.uk/partnerships-2/national-principles-for-public-engagement-in-wales/>

4. Crynodeb o'r Ymatebion

O blith y 18 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein:

- | | |
|----------|---|
| 10 (56%) | nid oedd 10 (56%) yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gymhwyso erthyglau CCUHP i bobl ifanc 18-24 oed |
| 4 (22%) | roedd 4 (22%) yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gymhwyso erthyglau CCUHP i bobl ifanc 18-24 oed |
| 4 (22%) | nid oedd 4 (22%) wedi manylu ar eu dewis. |

Dywedodd nifer bychan o ymatebwyr y byddent wedi hoffi cael rhagor o wybodaeth a manylion er mwyn gwneud dewis doethach.

Mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Croesawyd yr egwyddor o ddiogelu hawliau'r ystod oedran hwn yn y rhan fwyaf o achosion, ond roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod gwell ffyrdd o gyflawni hyn yn hytrach na dim ond cymhwyso erthyglau CCUHP i'r grŵp oedran hwn.

Roedd yr adborth o weithdai Dynamix a gynhaliwyd gyda phobl ifanc a oedd yn cynrychioli'r grŵp oedran hwn yn adlewyrchu'r teimladau hynny hefyd. Mae'r bobl ifanc yn derbyn yn eang y byddai manteision i'w cael o sicrhau cefnogaeth a gwarchodaeth ychwanegol, ond mae nifer ohonynt yn anghyfforddus gyda chael eu categoreiddio fel plant neu eu labelu mewn unrhyw ffordd a all fod yn nawddoglyd.

Yr adborth cyffredinol oedd na fyddai'n briodol cymhwyso CCUHP i bobl ifanc 18-24 oed ond gwnaed llawer o awgrymiadau buddiol mewn perthynas â datblygiadau pellach i sefydlu dull o weithredu seiliedig ar hawliau, yn ogystal ag awgrymu opsiynau eraill yn lle'r hyn sydd yn ei le ar hyn o bryd ar gyfer yr ystod oedran hwn.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Adran 8.

5. Themâu ac Ymatebion Allweddol

Bwriad y ddogfen hon yw bod yn grynodeb yn unig o'r safbwyntiau a dderbyniwyd, ond mae'n rhoi sylw mewn peth manylder i'r ystod o adborth. Cofiwch nad yw pob sylw wedi'i gynnwys.

Gan nad oedd yr ymatebion i gyd a dderbyniwyd yn defnyddio'r cwestiynau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad, mae'r sylwadau wedi cael eu grwpio yn unol â'r themâu canlynol:

- Mae pobl ifanc yn wynebu llawer o'r un problemau â phlant
- Mae CCUHP wedi'i ddrafftio'n benodol ar gyfer plant o dan 18 oed
- Byddai ymestyn erthyglau CCUHP i gynnwys pobl ifanc 18-24 oed yn amharu ar y grŵp oedran presennol

- Nid yw'r holl erthyglau'n briodol i bobl ifanc
- Gwell ffyrdd o ddiogelu hawliau pobl ifanc
- Diffiniad o 'Agored i Niwed'
- Ni fydd ymestyn CCUHP yn rhoi sylw i'r problemau pontio.

Mae pobl ifanc yn wynebu llawer o'r un problemau â phlant

Pwysleisiwyd gan nifer o'r ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru osgoi unrhyw weithredu a all arwain at ehangu'r bwlch rhwng y rhai o dan 18 oed a'r rhai dros 18 oed, oherwydd maent yn wynebu'r un problemau yn aml. Os oedd yr ymatebwyr wedi manylu ar fanteision ymestyn CCUHP i gynnwys pobl ifanc 18-24 oed, roedd osgoi'r sefyllfa hon yn cael ei hystyried yn gyffredin fel un ohonynt.

Roedd yr ymatebwyr yn glir eu barn y dylid ystyried y grŵp oedran hwn wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaethau yn yr un modd ag ystyrir plant, ac nad yw anghydraddoldeb rhwng y polisiau a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc o gymharu â phlant yn dderbyniol.

Cyfeiriwyd at rai sefyllfaoedd penodol ble mae cefnogaeth barhaus o laslencyndod i gyfnod cynnar fel oedolyn o bwysigrwydd arwyddocaol e.e. pontio o ofal maeth i fyw'n hunangynhaliol a phobl sy'n wynebu diweithdra.

Ymatebion

"Mae pobl ifanc yn wynebu llawer o'r un problemau ag a wynebir gan blant 0-17 oed, mwy efallai, yn enwedig plant hŷn 16/17 oed, er enghraifft, diffyg goddefgarwch y cyfryngau, anfantais economaidd, gwahaniaethu ar sail cyflogaeth ..."

"Mae'n helpu i osgoi newid sydyn sy'n peri dychryn o blentyn i oedolyn yn 18 oed."

Mae CCUHP wedi'i ddrafftio'n benodol ar gyfer plant o dan 18 oed

Dywedodd sawl ymatebydd bod Erthygl 1 CCUHP yn glir am gwmpas y Confensiwn ac yn diffinio 'plentyn' at bwrpas y Confensiwn fel pob bod dynol o dan 18 oed.

Dywedodd UNICEF UK⁹ bod gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod integreiddio polisiau ieuencid a phlant yn nodwedd gyffredin ym mhob cwr o'r byd ond does dim enghraifft o ymgais i ymestyn CCUHP i gynnwys pobl ifanc sydd dros 18 oed. Hefyd, mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn¹⁰ yn annog Gwladwriaethau nad ydynt wedi gwneud hynny i adolygu a chydgordio deddfau yn unol â diffiniad y Confensiwn.

⁹ <http://www.unicef.org.uk/>

¹⁰ <http://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/index.htm>

Ymatebion

“Onid cryfder digwestiwn C[CU]HP yw’r ffaith ei fod yn wahanol i offerynnau hawliau dynol eraill ac yn benodol i blant?”

“Un o nodweddion a chryfderau diffiniol C[CU]HP yw’r ffaith ei fod yn cydnabod yr hawliau penodol ac arbennig sy’n berthnasol i blant. Mae ymestyn yr hawliau hyn y tu hwnt i gyfnod plentyndod yn peryglu hanfod C[CU]HP.”

Byddai ymestyn erthyglau CCUHP i gynnwys pobl ifanc 18-24 oed yn amharu ar y grŵp oedran presennol

Roedd nifer o’r ymatebwyr yn teimlo y gallai ymestyn yr erthyglau i gynnwys pobl ifanc 18-24 oed dynnu sylw oddi wrth weithredu’n briodol ar gyfer plant ac mai safbwynt unigryw CCUHP yw ei fod yn cydnabod bod gan blant hawliau penodol sy’n ymestyn y tu hwnt i Hawliau Dynol presennol.

Mynegwyd pryderon hefyd y byddai ymestyn erthyglau CCUHP yn gweithio yn erbyn y camau gweithredu cadarnhaol y mae sefydliadau yn eu cymryd er mwyn hybu a chreu mwy o ymwybyddiaeth o hawliau plant yng Nghymru, a nodwyd bod llawer i’w wneud o hyd.

Ymatebion

“..mae rhoi hawliau dynol plant i oedolion yn tansellio hefyd yr egwyddor bwysig bod plant angen hawliau ychwanegol i oedolion.”

“Mae amddiffyn plant o dan 18 oed yn dasg sylweddol....Oni ddylid cael gwell ffocws ar wneud pethau’n iawn ar gyfer plant a gweithredu CCUHP yn llawn i ddechrau.....”

Nid yw’r holl erthyglau’n briodol i bobl ifanc

Aeth llawer o’r ymatebwyr ati i ddatgan yn glir nad yw nifer o’r erthyglau yn CCUHP yn briodol i’r grŵp oedran 18-24, gan ddyfynnu, ymhlith eraill, erthyglau 3, 9, 10, 31, 37; gan awgrymu ymhellach y gall achosi risg o drin y grŵp oedran hwn yn nawddoglyd. Nodwyd y byddai llawer o’r erthyglau’n broblemus i’w cymhwyso ac na fyddai pobl ifanc yn eu hadnabod eu hunain yn yr un cyd-destunau.

Ni theimlwyd yn gyffredinol chwaith y byddai’n briodol tynnu rhai erthyglau penodol o CCUHP ac yna’u cymhwyso i’r grŵp oedran hwn, gan fod CCUHP i fod i gael ei drin fel Confensiwn cyflawn, na ellir ei rannu.

Un pwynt cyffredinol a wnaed oedd bod gan yr erthyglau yn CCUHP sy’n cael eu hystyried yn briodol i bobl ifanc 18-24 oed erthyglau cyfatebol yn y deddfau Hawliau Dynol.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am oblygiadau ymestyn yr erthyglau i wasanaethau a chyllid i'r grŵp oedran hwn.

Ymatebion

“Sut gall Gweinidogion Cymru gymhwyso'r egwyddor o 'fuddiannau gorau' (Erthygl 3) i berson ifanc 24 oed? Erthygl 31 'yr hawl i chwarae' i oedolion?”

“Gallai ymestyn CCUHP i gynnwys y grŵp oedran 18-24 achosi risg o drin y grŵp oedran hwn fel plant ac yn nawddoglyd.”

“..mae rhai problemau sylfaenol gyda pherthnasedd yr Erthyglau i'r ystod oedran hwn a'u cymhwyso i wasanaethau heb eu datganoli yng Nghymru.”

“Gall gael effaith negyddol ar filwyr ifanc yn y fyddin. Beth fyddai cael 'gwarchodaeth arbennig' ar faes y gad yn ei olygu i filwr 21 oed?”

Roedd y bobl ifanc a gymerodd ran yng ngweithdai Dynamix yn pryderu'n benodol am hyn ac roeddent yn teimlo y gellid defnyddio'r confensiwn i gyfyngu arnynt, i'w cadw'n blant yn hytrach na chael y rhyddid y mae ganddynt hawl iddo fel oedolion. Roedd ymdeimlad o gael eu trin mewn ffordd nawddoglyd ac o fod yn destun darpariaethau mewn confensiwn i blant.

Ymatebion

“Does gen i ddim eisiau i unrhyw un gyfeirio ata' i fel plentyn.”

“Rydw i'n poeni y byddai rhieni'n dal i gael dweud wrthyn ni beth i'w wneud ar ôl i ni droi'n 18 neu os ydyn ni'n byw oddi cartref.”

“Mae'n anodd gwahaniaethu rhwng hawliau a chyfyngiadau ac mae'n rhaid iddyn nhw fod ar wahân.”

Gwell ffyrdd o ddiogelu hawliau Pobl Ifanc

Mae nifer o ymatebwyr yn teimlo nad yw CCUHP yn fecanwaith priodol i Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio fel fframwaith ar gyfer y grŵp oedran hwn a bod gwell ffyrdd o ddiogelu hawliau pobl ifanc 18-24 oed e.e. cefnogi'r bobl ifanc hyn i sicrhau eu Hawliau Dynol. Cadarnhaodd yr ymatebwyr bod pobl ifanc eisoes yn meddu ar hawliau ac wedi'u gwarchod gan naw cytundeb rhyngwladol craidd ar Hawliau Dynol; gyda nifer yn mynegi pryderon ynghylch y ffaith y byddai ymestyn CCUHP yn creu dryswch ac yn achosi camddealltwriaeth.

Roedd yr ymatebwyr hyn yn ymhelaethu'n aml gan ofyn i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn fel cyfle i ystyried y dull seiliedig ar Hawliau Dynol o weithredu ac edrych ar sut gellir gwella hwn ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

Ymatebion

“.... gallai un strategaeth gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar hawliau dynol ac yn cadw at fframwaith deddfwriaethol CCUHP hyd at 17 oed ac yn dilyn Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Offerynnau Hawliau Dynol Rhyngwladol perthnasol ar gyfer y grŵp oedran 18-24 fod yn fwy ystyrlon a defnyddiol.”

“...cyflwyno dyletswydd gyfochrog o dan y Mesur, gan alw ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth briodol i hawliau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a dynol pobl ifanc 18-24 oed...”

“...defnyddio'r broses ymgynghori hon fel cyfrwng i ganfod ffyrdd i Weinidogion ddiogelu'n llawnach hawliau dynol pobl ifanc a manteisio ar y cyfle a geir yn sgil y drafodaeth hon i ganolbwyntio ymdrechion ar ddatrysiad polisi sydd wedi'i ddatgan. Mae hyn yn hynod bwysig i'r bobl ifanc agored i niwed y mae eu teuluoedd yn methu neu'n anfodlon darparu cefnogaeth barhaus iddynt.”

“Mae llawer o'r problemau y mae hyn yn ceisio rhoi sylw iddynt yn deillio o addysg wael. Gellid defnyddio'r adnoddau i wella hyn.”

Diffiniad o 'Agored i Niwed'

Fel ymateb i'r cynnig i gymhwyso erthyglau CCUHP i bobl ifanc 18-24 oed agored i niwed, mynegwyd safbwyntiau ynghylch y ffaith y byddai'n anodd diffinio 'agored i niwed'. Gofynnwyd sut byddai Gweinidogion Cymru'n amlinellu grwpiau 'agored i niwed' yn glir, fel bod pawb yn deall, gyda llawer yn awgrymu y byddai'r categoreiddio hwn yn cael effaith niweidiol, gan ddefnyddio'r term 'gwahaniaethu cadarnhaol' hyd yn oed.

Mae'n ymddangos bod symud oddi wrth categoreiddio unigolion yn digwydd, yn enwedig mewn perthynas â galluogi mynediad i wasanaethau, a allai olygu bod diffinio agored i niwed yn fwy a mwy anodd e.e. y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)¹¹. Bydd y Bil yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gydlynol ac integredig i bobl o bob oedran ac ym mhob cwr o Gymru.

¹¹ [Llywodraeth Cymru | Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles \(Cymru\)](#)

Ymatebion

“Mae categoraiddio pobl ifanc fel ‘agored i newid’ a ‘heb fod yn agored i niwed’ yn ddull amrywiol o weithredu, gan greu bylchau a risgiau wrth gyfleu’r neges mai dim ond i grwpiau penodol y mae hawliau ar gael. Felly, byddai hyn yn tanseilio’r egwyddor allweddol o berthnasedd cyffredinol offerynnau hawliau dynol a’r safon nad yw’n gwahaniaethu..”

“Pwy fydd yn penderfynu pa grwpiau o bobl ifanc sy’n perthyn i’r categori hwn? Bydd rhai pobl ifanc yn cael eu hystyried yn ‘agored i niwed’ ac efallai y bydd eraill sydd â mwy o anghenion ac sy’n wynebu mwy o risg o fethu cael hawliau, yn cael eu heithrio.”

“Gall bod yn agored i niwed gael ei ddehongli mewn cymaint o ffyrdd, a gall fod ar sawl ffurf, a newid o ddydd i ddydd. Efallai eich bod yn teimlo’n agored i niwed heddiw, ond nid felly yfory, gall ddibynnu ar lawer o bethau, o gyflwr eich meddwl i amodau rhewllyd.”

Fodd bynnag, roedd croeso hefyd i ymestyn y ddyletswydd i gynnwys grwpiau agored i niwed mewn rhai achosion. Gwelwyd llawer o ymatebion yn datgan achos cryf dros gefnogaeth barhaus ychwanegol i bobl 'agored i niwed' yn y grŵp oedran hwn, gan bwysleisio y dylid cefnogi sefydliadau i allu cynnig darpariaeth addas i bobl ifanc 18-24 oed.

“..mae sicrhau bod anghenion pobl ifanc anabl yn cael ystyriaeth drwyadl wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaethau’n hynod bwysig oherwydd yr her a’r rhwystrau y mae pobl ifanc anabl yn eu hwynebu.”

“Does neb yn gofalu amdanyn nhw.”

Hefyd, cyfeiriwyd at yr adolygiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol¹² fel datblygiad polisi diweddar sy’n ystyried plant a phobl ifanc fel pobl 0-25 oed, ac y byddai estyniad i CCUHP yn gyson â’r dull hwn o weithredu. Nodwyd hefyd bod person ifanc yn cael ei ystyried fel rhywun rhwng 11 a 25 oed ar hyn o bryd mewn awdurdodau lleol.

Ni fydd ymestyn CCUHP yn rhoi sylw i’r problemau pontio

Roedd cydnabyddiaeth eang ymhlith yr ymatebion y gall y cyfnod o bontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn fod yn eithriadol anodd a heriol, yn arbennig i grwpiau agored i niwed e.e. unigolion sy’n gadael gofal. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr yn anghytuno y byddai cymhwyso erthyglau CCUHP yn rhoi sylw i’r problemau pontio.

¹²[Llywodraeth Cymru | Rhaglen o Ymchwil Gweithredol fel Sail i Werthusiad o Gam Datblygiadol Peilot yr Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad terfynol](#)

Mynegwyd pryderon niferus am allu rhai pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn i sicrhau eu hawliau.

Ymatebion

“Ar ôl bod mewn gofal a’i adael rydw i’n teimlo ein bod ni’n cael ein gollwng yn 18 oed, ond dylai pawb 18-24 oed fod wedi’u gwarchod o dan yr hawliau yma”.

“Un anhawster ychwanegol mae pobl ifanc yn ei brofi ... ydi nad ydw’r gwasanaethau wedi’u llunio’n gyffredinol i ddarparu cefnogaeth dda i bobl ifanc; maent yn gyffredinol yn aml – hy i ‘blant’ o dan 18 neu ‘oedolion’ ..”

Cafodd rhai o’r polisïau a’r cynlluniau sydd wedi’u cynhyrchu a’u gweithredu i helpu i sicrhau gwarchodaeth ddigonol i’r unigolion mwy agored i niwed yn y grŵp oedran yma eu cydnabod e.e. y cynllun ‘Pan Fydda I’n Barod’¹³. Nododd un ymatebydd hwn fel enghraifft o’r ffordd orau ymlaen.

Fodd bynnag, tynnodd y bobl ifanc sylw at gostau gofal plant, cyflogau isel, tai, costau teithio a chost mynd yn ôl i mewn i addysg neu gyflogaeth fel y materion mwyaf heriol sy’n eu hwynebu. Roeddent yn ansicr ynghylch sut byddai ymestyn CCUHP yn effeithio ar y rhain ond roeddent yn sicr mai’r rhain oedd y meysydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer eu gwella.

Mynegwyd pryderon am effaith bosibl ymestyn erthyglau CCUHP ar wasanaethau, o ran cyllid ac adnoddau staffio.

Dywedodd y bobl ifanc a gymerodd ran yng ngweithdai Dynamix bod diffyg cysondeb y gefnogaeth yn broblem. Er ei bod yn glir bod y rhan fwyaf o’r cyfranogwyr yn cydnabod cefnogaeth ychwanegol fel mantais glir, yn enwedig y rhai a ystyriwyd fel unigolion agored i niwed, roeddent yn dweud eu bod yn gorfod dechrau eto yn aml gyda phobl newydd unwaith roeddent yn cyrraedd oedran penodol.

Ymatebion

“Mae’n gallu cymryd blynyddoedd i ymddiried mewn gweithiwr a dydych chi ddim eisiau colli hynny dim ond am eich bod chi’n troi’n 18 oed.”

“Mae’n rhaid i chi wybod ble mae cael cefnogaeth barhaus, mae cael cefnogaeth gan bobl y tu allan i’ch ffrindiau a’ch teulu’n bwysig.”

“Nid oedran ydi’r peth gymaint, mae’n rhaid penderfynu ar hyn fesul unigolyn.”

¹³ http://www.voicesfromcarecymru.org.uk/.../when_i_am_ready_young_per...

6. Casgliad a'r Camau Nesaf

Rydym yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan ystod eang o randdeiliaid a phobl ifanc o bob cwr o Gymru.

Cynigiwyd gwahanol safbwyntiau fel ymateb i'r cwestiwn a holwyd gan yr ymgynghoriad gan arwain at ddadleuon a dadansoddi argyhoeddiadol ar y ddwy ochr.

Casgliad cyffredinol y grwpiau o bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses hon, gyda nifer ohonynt wedi'u gwthio i'r cyrion neu'n cael eu hystyried yn agored i niwed, oedd nad oedd CCUHP yn gwbl briodol i bobl ifanc 18-24 oed ac, am y rheswm yma, "mae'n bur debyg na ddylai" Gweinidogion Cymru ymestyn CCUHP i gynnwys y grŵp oedran hwn.

Er eu bod yn cydnabod y gallai llawer o bobl ifanc elwa o gefnogaeth a gwarchodaeth ychwanegol, maent hefyd yn credu bod y gefnogaeth hon yn bodoli eisoes. Er hynny, fe wnaethant ddweud y gellid ei gwella mewn rhai achosion a bod cysondeb y gefnogaeth yn bwysig. Wrth geisio barn y bobl ifanc, gwelwyd yn glir bod nifer o faterion penodol yn cael eu hystyried yn fwy o flaenoriaeth nag ymestyn CCUHP e.e. dod o hyd i waith.

Cawsom 18 ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein ac nid oedd 10 (56%) yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gymhwyso erthyglau CCUHP i bobl ifanc 18-24 oed.

Er y gallai cymhwyso confensiwn sy'n seiliedig ar hawliau ychwanegol i unrhyw grŵp gael ei ystyried fel cam cadarnhaol, heb wanio hawliau'r grŵp oedran 18-24 o angenrheidrwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi nod bod yr ymatebwyr wedi datgan nad ydynt yn glir ynghylch beth fyddai'r manteision cyffredinol.

Er bod yr ymatebwyr yn poeni am allu rhai pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn i sicrhau eu hawliau, roeddem yn gweld bod yr ymatebwyr yn datgan yn glir nad CCUHP yw'r mecanwaith a'r fframwaith priodol ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion ac wedi dod i'r casgliad nad gweithredu CCUHP yw'r ffordd orau i symud ymlaen a diogelu hawliau pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn. Felly ni fyddwn yn cymhwyso erthyglau CCUHP i bobl ifanc 18-24 oed.

Hoffem ddiolch i'r unigolion a'r grwpiau am roi amser i ystyried y mater hwn a darparu'r sylwadau sydd wedi bod yn sail i'n casgliad.

7. Y Mentrau a Awgrymir yn yr Ymatebion

Gwnaed llawer o awgrymiadau yn ymatebion yr ymgynghoriad ynghylch sut ddylid cefnogi'r ystod oedran 18-24, ar wahân i ymestyn erthyglau CCUHP.

Bydd yr awgrymiadau hyn yn cael eu hanfon ymlaen ar gyfer ystyriaeth i adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru sydd â'r prif gyfrifoldeb yn eu maes gwaith. Dyma rai enghreifftiau:

- Sicrhau bod pobl ifanc o dan 18 oed yn gwybod mwy am CCUHP ac yn ei ddeall yn well, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio gyda hwy ac ar eu rhan. Ei fod yn parhau i gael ei gynnal ledled Cymru ac felly'n fwy tebygol o wella sefyllfa pobl ifanc 18-24 oed yn y dyfodol.
- Ar lefel Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid wrth gynlluniau mwy effeithiol ar gyfer pontio a defnyddio'r fframwaith Hawliau Dynol rhyngwladol helaeth i gefnogi a gwarchod Hawliau Dynol y grŵp oedran 18-24 oed. Argymhellir felly bod Llywodraeth Cymru yn ystyried Deddf Hawliau Dynol 1998 a chytundebau Hawliau Dynol rhyngwladol eraill wrth ystyried hawliau'r grŵp oedran 18-24.
- Mae bodolaeth dau bolisi cyffredinol sy'n gorgyffwrdd mewn perthynas â meini prawf oedran h.y. y 7 Nod Craidd (0-18 oed) ac Ymestyn Hawliau (11-25 oed) yn gallu bod yn ddryslyd i'r rhai sy'n ceisio gweithredu polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn lle cael dau bolisi ar wahân, gellid cael un strategaeth gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc, yn seiliedig ar Hawliau Dynol ac yn cadw at fframwaith deddfwriaethol CCUHP hyd at 18 oed a dilyn Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Offerynnau Hawliau Dynol Rhyngwladol perthnasol ar gyfer y grŵp oedran 18-24.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa feysydd sydd angen rhagor o gefnogaeth a chyllid er mwyn diwallu anghenion y bobl ifanc o'r oedran hwn, gan gynnwys cefnogaeth gyson barhaus a chyfeirio at wasanaethau perthnasol. Gallai hyn ddigwydd naill ai yn lle neu ochr yn ochr â chymhwyso CCUHP i bobl ifanc 18-24 oed.
- Mae gan rai pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn broblemau a gwendidau penodol nad ydynt yn cael sylw cynhwysfawr efallai yn yr offerynnau Hawliau Dynol cyffredinol, er enghraifft, ynghylch eu haddysg, gadael gofal cyhoeddus neu bobl ifanc ag anableddau. Anogir Gweinidogion Cymru i roi ystyriaeth ofalus i sut gellir cryfhau eu hawliau. Yn wir, byddai datblygu cynllun gweithredu er mwyn cyflawni hyn yn cael ei groesawu.
- Mae llawer o bobl ifanc 18-24 oed angen cefnogaeth a/neu warchodaeth ychwanegol barhaus. Boed yn ystyried CCUHP ar gyfer y grŵp oedran hwn ai peidio, dylai sefydliadau gael cefnogaeth i allu cynnig darpariaeth addas lle bo hynny'n bosibl.
- Mapio'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i ieuencid 18-24 oed. Mae'n rhaid cynllunio gwasanaethau'n briodol, gan roi ystyriaeth i anghenion amrywiol cleientiaid ehangach.
- Oes modd i wasanaethau eirioli gymryd rôl i gysylltu â'r grŵp oedran 18-24 a chyfeirio at wasanaethau perthnasol?
- Y materion mwyaf heriol i bobl ifanc yw costau gofal plant, cyflogau isel, tai, costau teithio a chost mynd yn ôl i mewn i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae gweithredu rhywbeth i wneud newidiadau cadarnhaol yn y meysydd hyn yn fwy o flaenoriaeth.

- Datblygu fframweithiau canlyniad effeithiol i strwythuro'r gwaith o ad-drefnu'r gwasanaethau, gyda'r nod o sicrhau'r chwe maes lles sydd wedi'u datgan yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).
- Dylid penderfynu ar gefnogaeth a gwarchodaeth ychwanegol ar sail unigol yn hytrach nag yn seiliedig ar oedan.
- Rhannu'r categorïau er mwyn symleiddio mynediad at wasanaethau.
- Datblygu ymhellach fframweithiau gwarchodaeth gymdeithasol i bobl ifanc, i helpu gyda'u diffyg annibyniaeth economaidd.

8. Rhestr Lawn o'r Ymatebwyr

Hoffai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori hwn.

Rhestr o weithdai ymgynghori gyda phobl ifanc 18-24 oed

Sefydliad

Carcharorion ar remánd yng Ngharchar Caerdydd
Undeb y Myfyrwyr, Prifysgol Bangor
Grŵp Rheini Ifanc Gweithredu Dros Blant
Grŵp Ieuencid Tor-faen
Oedolion Ifanc Sy'n Ofalwyr – Canolbarth Powys
Grŵp Cynnwys Anabledd Tor-faen
Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion
Grŵp Ieuencid Yr Urdd
Sipsiwn Crwydrol Cil-maen

Lleoliad

Carchar Caerdydd
Prifysgol Bangor
Y Drenewydd
Tor-faen
Llandrindod
Tor-faen
Ceredigion
Conwy
Y De Orllewin

Rhestr o weithdai ymgynghori gyda sefydliadau unigol

Sefydliad

Rhwydwaith Cyfnewid Arferion Plant a Phobl
Ifanc Gogledd Cymru
Y Ddraig Ffyni

Lleoliad

Llanrwst
Caerdydd

Ymatebion i'r ymgynghoriad yn y wefan

Sefydliad

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Caerdydd
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy
Plant yng Nghymru
Y Comisiynydd Plant
Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Fforwm Ieuencid Bwrdeistref Merthyr Tudful
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yng Nghymru
NIAB
Chwarae Cymru
UNICEF yn y DU
Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc
Grŵp Monitro CCUHP Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
YMCA Cymru